OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1064 (Cy. 239)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Medi 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 13(1)(a) a 201(1) a (3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**) ("Deddf 1983") ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 7(1) a (2)(e) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**3**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 201(2)(**4**) o Ddeddf 1983(**5**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1983" yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

(**1**) 1983 p. 2. Amnewidiwyd adran 13(1) gan adran 5(1) o Ddeddf Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol) 2006 (p. 33). *Gweler* adran 202(1) am ystyr "prescribed". Diwygiwyd adran 201(1) gan baragraff 6(1) a (7)(a) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41). Mewnosodwyd adran 201(3) gan baragraffau 1 ac 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2), ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6(1) a (7)(d) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

(**2**) Trosglwyddwyd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

(**3**) 2000 p. 41.

(**4**) Mae'r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**5**) Amnewidiwyd adran 201(2) gan adran 24 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50) a pharagraff 69 o Atodlen 4 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6(1) a (7)(b) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

**Dyddiad cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig ar gyfer 2020**

**2.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r gofyniad o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983 i swyddogion cofrestru gyhoeddi, ar gyfer y flwyddyn 2020, fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr a gynhelir mewn cysylltiad ag ardaloedd llywodraeth leol sirol neu fwrdeistref sirol yng Nghymru o dan adran 9(1)(b) o Ddeddf 1983(**6**).

(2) Y dyddiad ar gyfer diwedd y cyfnod a ddisgrifir yn adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983, sef y cyfnod y mae rhaid i'r gofrestr ddiwygiedig gael ei chyhoeddi ynddo, yw 1 Chwefror 2021.

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

30 Medi 2020

(**6**) Amnewidiwyd adran 9 gan baragraffau 1 a 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu dyddiad diwygiedig ar gyfer diwedd y cyfnod y mae rhaid i fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr etholiadol o etholwyr llywodraeth leol i'r ardaloedd llywodraeth leol sirol neu fwrdeistref sirol yng Nghymru ar gyfer 2020 gael ei chyhoeddi ynddo yn unol ag adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983").

Mae rheoliad 2(1) yn gymwys i gyhoeddi gan swyddog cofrestru (gweler adran 8 o Ddeddf 1983) ar gyfer ardal sirol neu fwrdeistref sirol yng Nghymru gofrestr ddiwygiedig o etholwyr llywodraeth leol a gynhelir gan y swyddog hwnnw o dan adran 9(1)(b) o Ddeddf 1983.

Mae rheoliad 2(2) yn pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r gofrestr honno gael ei chyhoeddi yn 1 Chwefror 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn am eu bod yn gweithredu diwygiad technegol arferol nad yw'n cael unrhyw effaith, neu nad yw'n cael unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.